Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru

Diogelu'r Ysgyfarnog yng Ngogledd Cymru

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol

Fel ffermwr neu berchennog tir, gallwch chi ddiogelu dyfodol Ysgyfarnogod yng Ngogledd Cymru.

Golygfa hudolus ar fore tarthog yn y gwanwyn yw gweld Ysgyfarnogod Gwallgof Mawrth yn bocsio.

Ond pa bryd welsoch hyn ddiwethaf?

Oeddech chi'n gwybod?

- Yn y DG mae'r ysgyfarnog frown wedi bod yn dirywio ers 1945. Ond yng Ngogledd Cymru, mae ysgyfarnogod yn gyffredin ac ar y cyfryw maen't ei darganfod ar dir bugeilgerdd. Ond, fe fudd ffermio cymysg o fudd iddynt.
- Bod modd gwahaniaethu rhwng ysgyfarnogod a chwningod drwy sylwi ar eu clustiau hirion gyda blaenau duon, eu camau breision wrth symud a'u coesau hirion. Maent hefyd yn fwy o ran maint.
- Bod ysgyfarnogod yn gallu symud ar gyflymdra o 45 mya!
- Bod eu tymor magu rhwng misoedd Chwefror a Medi a bod modd i ysgyfarnog fenyw roi genedigaeth i lefrod hyd at 4 gwaith yn ystod y tymor hwn. Maent yn geni rhwng 2 a 4 o lefrod bob tro.
- Bod cyfran uchel o lefrod yn cael eu lladd gan anifeiliaid ysglyfaethus.
- Mai anifeiliaid y nos yw ysgyfarnogod yn bennaf, yn bwydo ar egin glaswellt, grawnfwydydd a dail.

Beth sy'n affeithio ar yr ysgyfarnog frown yng Ngogledd Cymru?

- Newidiadau mewn arferion ffermio, e.e. torri silwair a grawnfwydydd a hadir rhwng y gwanwyn a'r hydref.
- Cynnydd mewn pori, cnydau, cynaeafu a chwistrellu cemegol.
- Cynnydd mewn llwynogod, sy'n lladd ac yn bwydo ar lefrod.
- Gall hela ysgyfarnogod fod yn broblem.

Dyluniwyd gan **antenna creative** 07772 629063 Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.

Beth allwch chi ei wneud i helpu?

COFIWCH roi seibiant i'ch porfa fel bod amrywiaeth o blanhigion llysieuol yn cael cyfle i dyfu arni. Mae ysgyfarnogod yn anifeiliaid gofalus iawn wrth fwydo ac mae'n well ganddynt dirlun tebyg i 'gwilt clytwaith' i gadw'n iach.

COFIWCH dorri'r glaswellt mewn stribedi ar draws caeau âr agored, yn hytrach nag ar hyd ymyl y gwrychoedd, ble gall anifeiliaid ysglyfaethus lechu i ddisgwyl am eu prae. Bydd y rhain yn darparu mannau pori yn ystod yr haf.

COFIWCH adael rhai mannau, fel cloddiau ac ymylon ffosydd, heb eu pori ar ffermydd lle ceir da byw, fel bod glaswellt tal yn cael tyfu yno, yn gysgod tawel i ysgyfarnogod fagu eu lefrod.

COFIWCH dorri eich cae o'r canol am allan wrth hel silwair. Mae hyn yn rhoi cyfle i ysgyfarnogod ac anifeiliaid gwyllt eraill ddianc rhag y peiriannau.

COFIWCH gysylltu â'ch awdurdod lleol i drafod unrhyw gymorth neu gyllid posibl ar gyfer prosiectau fel ffensio, gwaith ar derfynau etc.

PEIDIWCH Â defnyddio plaleiddiaid fel paracwat – maent yn gallu lladd ysgyfarnogod.

PEIDIWCH Â saethu ysgyfarnogod ar derfyn y gaeaf – mae eu hela yn ystod mis Chwefror yn gallu dileu 60% o'r stoc magu.

PEIDIWCH Â thopio unrhyw borfa yn ystod tymor magu'r ysgyfarnogod, os oes modd. Mae lefrod ieuainc yn defnyddio'r tuswau i gysgodi.

Am wybodaeth bellach, neu os am roi gwybod i ni os ydych wedi gweld ysgyfarnog, cysylltwch â:

Llun gan David Mason

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

YR UNDEB EWROPEAIDD
AMCAN 1
EUROPEAN UNION
OBJECTIVE 1

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL